
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	07.06.22
Pwnc / Subject:	Adolygiad o God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol (CGA)

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Credwn fod Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg yn cynnig cyfres glir a chryno o ddisgwyliadau ar gyfer y gweithlu. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r cyfle hwn i adolygu'r Cod ac awgrymwn y gellir ei ddiweddarau a'i gryfhau mewn ychydig o feysydd allweddol, fel y manylir isod.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Ym mis Medi 2019, yn dilyn cyfnod helaeth o ymgynghori a gwaith ymgysylltu, cyhoeddwyd Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA.

Yn unol â deddfwriaeth, byddwn yn adolygu'r Cod bob tair blynedd. Ers i'r fersiwn gyfredol gael ei rhoi ar waith, ymddengys ei bod wedi sefyll prawf amser yn y modd y cafodd ei hysgrifennu, ei chynnwys a'r ffaith y gall ymarferwyr ar draws pob un o'r 7 grŵp cofrestreion ei defnyddio.

Fel y cyfryw, bydd yr adolygiad hwn yn un llai manwl ac, i'w lywio, hoffwn eich gwahodd i rannu unrhyw sylwadau neu arsylwadau a allai fod gennych yn ymwneud â'r Cod presennol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech eu rhoi i mi a David Browne (david.browne@ewc.wales), Pennaeth Priodoldeb i Ymarfer, drwy'r e-bost erbyn dydd Mawrth 7 Mehefin 2022.

Sylwadau gan Estyn

- Mae'n fuddiol cael un cod sy'n berthnasol i bob ymarferydd yng Nghymru. Fodd bynnag, gallai fod yn ddefnyddiol pe byddai cysylltiadau penodol yn y Cod i ddisgwyliadau proffesiynol o ran safonau amrywiol i ymarferwyr, fel yn y Safonau Proffesiynol i athrawon ac arweinwyr ('*gwerthoedd ac ymagweddau*'), y Safonau Proffesiynol ar gyfer athrawon addysg bellach ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith ('*gwerthoedd, gwybodaeth a sgiliau*') a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid.
- Dywed 1.4 yn y Cod bod gan gofrestreion:
ddyletswydd gofal dros ddiogelwch dysgwyr a'u llesiant corfforol, cymdeithasol, moesol ac addysgol:
 - *gweithredu ar unrhyw beth a allai beryglu diogelwch neu lesiant dysgwr;*
 - *adrodd, yn unol â 4.3 isod, unrhyw fater diogelu, neu unrhyw fater arall a allai o bosibl niweidio diogelwch neu lesiant dysgwr.*

Byddai'r adran hon yn elwa ar bwynt bwled ychwanegol sy'n nodi cyfrifoldeb y cofrestrai i feithrin a chyfrannu at ddiwylliant diogelu'r lleoliad addysgol y mae'n gweithio ynddo (gan gyfeirio at ganllawiau Cadw dysgwyr yn ddiogel, Llywodraeth Cymru, 2021, t. 26: *Dylai pawb sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth nodi plant sy'n wynebu risg a chyfrannu at ddiwylliant diogelu'r lleoliad addysg y maent yn gweithio ynddo*).

- Er mwyn alinio'r Cod â Cymraeg 2050, strategaeth y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, 2021, byddai'n ddefnyddiol ychwanegu pwynt bwled at yr egwyddor allweddol gyntaf, sef *Cyfrifoldeb personol a phroffesiynol*, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cofrestrai ddangos ymrwymiad i'r strategaeth.